

GWASANAETH MYNYCHU'R YSGOL A LLES



POB PLENTYN, POB DYDD.



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

AMDANOM NI

Bwriad Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles Rhondda Cynon Taf yw sicrhau cynnydd i gyrhaeddiad pobl ifainc. Er mwyn cyflawni hyn rydym yn gweithio'n agos â rhieni, ysgolion a gwasanaethau eraill i ddelio ag unrhyw drafferthion sy'n effeithio ar addysg plant .

CYFRIFOLDEB CYFREITHIOL GMYLL:

Yr Asiantaeth Orfodi o fewn yr awdurdod lleol yw'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, gyda chyfrifoldeb i drefnu gweithredoedd llys am absenoliaeth ysgol barhaus pan fo'n addas.

Mae'r cyfrifoldeb pennaf yn nwylo'r rhieni/gwarcheidwaid i annog presenoldeb ysgol. Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau fod rhieni ac ysgolion yn cynnal eu cyfrifoldebau. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

PWY YDYN NI'N HELPU?

Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles (GMYLL) yn cynnig cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd gan fynd i'r afael â phroblemau absenoliaeth. Mae Swyddogion Mynychu'r Ysgol a Lles a Swyddogion Cymorth Mynychu'r Ysgol yn gweithio ochr yn ochr gydag asiantaethau eraill i ddarparu cyswllt pwysig rhwng y cartref a'r ysgol. Mae nhw'n annog rhieni ac athrawon i weithio â'i gilydd fel bod disgyblion yn gallu manteisio ar y cyfleoedd addysg sydd ar gael yn yr ardal leol.

PRIF ROLAU'R GMYLL:

- Cyfrannu at yr Awdurdod Lleol
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion, rhieni a chymunedau i sicrhau hawliau addysg a phresenoldeb rheolaidd
- Cysylltu â rhwydwaith o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau addysg, cymdeithasol ac iechyd i unigolion gydag anghenion penodol.

SUT I GYSYLLTU Â NI

Rhieni/ Gwarcheidwaid

Am wybodaeth gyffredinol a chyngor:

Ffôn: 01443 744298

Ebost: aws@rctcbc.gov.uk

Petai angen i chi fynegi unrhyw bryderon neu ofyn am wybodaeth benodol, dylech gysylltu ag ysgol y disgybl.

Cyfeiriadau i Asiantaethau heblaw am Ysgol

Os ydych chi'n gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc ac yn teimlo eu bod nhw'n colli cyfleoedd addysg, neu os hoffech dderbyn cyngor cysylltwch â ni. I wneud cais am gyfeireb, cysylltwch â'r ysgol berthnasol neu ddesg weinyddol y GMYLL

Ffôn: 01443 744298

Ebost: aws@rctcbc.gov.uk

**Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
Addysg a Dysgu Gydol Oes, Tŷ Trevithick
Abercynon, CF45 4UQ**